**PWYLLGOR SAFONAU**
**2 MAWRTH 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Llun, 2 Mawrth 2020.

**YN BRESENNOL: Rob Dewey (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr:
Patrick Heesom, Paul Johnson ac Arnold Woolley

Aelodau cyfetholedig:
Jonathan Duggan-Keen, Phillipa Earlam, Julia Hughes a Ken Molyneux

**YMDDIHEURIAD:**
Mark Morgan

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Roedd y Cynghorydd Jean Davies yn bresennol yn arsylwi

**HEFYD YNO:**
Swyddog Monitro a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 64. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2020.

O ran cofnod 58, roedd y cyfarfod cyswllt moesegol nesaf wedi'i drefnu gyda'r Arweinwyr Grwpiau ar gyfer diwedd y mis. Bydd Arweiniydd Tîm y Gwasanaethau Democrataidd yn cyd-drefnu ymweliadau rota i arsylwi cyfarfodydd pwyllgor ar ôl iddi ddychwelyd oddi ar absenoldeb salwch.

Cymeradwywyd y cofnodion, yn amodol ar gywiriadau i gofnodion 57, 58 a 62, fel y cynigiwyd ac yr eiliwyd gan Ken Molyneux a'r Cynghorydd Woolley.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newidiadau, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 65. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 66. GODDEFEBAU

Dim.

## 67. ADOLYGU PROTOCOL AELODAU / SWYDDOGION

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried diweddaru'r Protocol Aelodau / Swyddogion fel rhan o adolygiad parhaus y Pwyllgor o'r Cyfansoddiad. Yn ogystal ag adlewyrchu newidiadau mewn arferion gwaith, rhoddodd y diwygiadau arfaethedig ystyriaeth i waith diweddar ar Safon Sir y Fflint, yr adolygiad o ymdrin ag ymholiadau Aelodau a chanlyniad y Tribiwnlys Achos yr adroddwyd arno'n ddiweddar i'r Pwyllgor. Ar ôl cytuno ar y newidiadau arfaethedig, bydd Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei hysbysu amdanynt er mwyn argymell i'r Cyngor eu mabwysiadu.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Heesom, cyfeiriodd y Swyddog Monitro at God Ymddygiad y Swyddogion sydd newydd ei ddiweddaru, sydd ar gael o fewn y Cyfansoddiad. Os oes gan unrhyw Aelod bryder, gallant ei godi gyda'r swyddog neu eu rheolwr atebol, sy'n gorfod mynd i'r afael ag unrhyw achos posib o dorri'r safonau. Gan fod gan weithwyr hawl i gyfrinachedd mewn perthynas â materion disgyblu, dim ond crynodeb lefel uchel o'r canlyniad yr oedd posib ei roi i'r Aelod fel adborth.

Cytunwyd ar y diwygiadau canlynol i fersiwn Saesneg y protocol:

- Adran 7.3: Tynnu 'to' o'r frawddeg gyntaf. Tynnu 'Lead Members' a chynnwys cyfeiriad at Gadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio, Trwydedu a Chynllunio i adlewyrchu'r amrywiol lefelau o gymorth a ddarperir. Nid oes angen priflythyren yn 'services' yn y frawddeg olaf.
- Rhoi priflythyren yn 'Member' yn adrannau 5.3, 7.2, 9.1, 9.2 a 10.3.
- Adran 9.2: rhoi 'key' o flaen 'decisions under delegated powers'.
- Adran 14.2: dylai ddarllen: 'in relation to'.

Cynigodd y Cynghorydd Woolley yr argymhellion, a chawsant eu heilio gan Phillipa Earlam.

**PENDERFYNWYD:**

Argymell y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r Protocol diwygiedig.

## 68. IS-BWYLLGOR Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried rhinweddau sefydlu is-bwyllgor i benderfynu ar geisiadau am oddefebau pan nad oes cyfarfod cyfleus arall o'r Pwyllgor llawn wedi'i drefnu. Roedd hyn yn dilyn y cyfarfod ym mis Ionawr a aildrefnwyd gyda'r cworwm lleiaf posib ar ôl ei ganslo i gychwyn, er mwyn ystyried un cais am oddefeb.

Wrth egluro'r darpariaethau angenrheidiol i sefydlu is-bwyllgor, dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'r opsiwn hwn yn cynnig llai o hyblygrwydd o ran aelodaeth. Aeth yn ei flaen i ddweud bod y Pwyllgor yn cyfarfod bob mis a bod y trefniant ym mis Ionawr wedi gweithio'n dda.

Siaradodd yr Aelodau o blaid yr awgrym hwn, gan nodi eu bod yn dymuno parhau gyda'r trefniadau presennol heb fod angen is-bwyllgor. Cynigiwyd ac eiliwyd hyn gan Julia Hughes a'r Cynghorydd Woolley.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cadeirydd, sicrhaodd y Swyddog Monitro y byddai'r Aelodau yn cael eu hatgoffa o'r angen i gyflwyno ceisiadau am oddefebau cyn gynted ag y bo modd.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cytuno nad oes angen is-bwyllgor.

## 69. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol i'w hystyried.  Cytunwyd ar y newidiadau canlynol:

Eitemau i'w cynnwys ar y rhestr 'i'w trefnu':

- Llyfr Achosion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Adolygiad o'r profforma i helpu Aelodau Annibynnol sy'n arsylwi cyfarfodydd y Cyngor.
- Adborth o'r ymweliadau hynny.

Eitemau a ddangosir ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, ond sydd heb eu trefnu eto:

- Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru – i aros ar y rhestr nes bydd yr adroddiad nesaf wedi'i gyhoeddi.
- Y broses oddefebau yng Nghynghorau Gwynedd ac Ynys Môn - i'w drefnu ar gyfer 27 Ebrill.
- Amlder adrodd am y Trosolwg o Gwynion Moesegol – i'w drefnu bob blwyddyn ar yr un dyddiad â'r adroddiad diwethaf.
- Gweithdrefn Adrodd Gyfrinachol – i'w thynnu oddi ar y Rhaglen gan ei bod yn dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor Archwilio.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

## 70. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6.30pm a daeth i ben am 7.25pm)

..............................
**Y Cadeirydd**